# Ydych chi'n colli'ch cyfle i gael help gyda'r?

## Dreth Gyngor

Nid oes llawer o ofalwyr yn sylweddoli y medrent fod yn gymwys i gael gostyngiad ar eu Treth Gyngor, neu â'r hawl i gael gostyngiadau neu eithriadau eraill.

Efallai y bydd gennych chi'r hawl i dalu llai o'r dreth gyngor os yw un o'r canlynol yn wir:

- rydych yn gofalu (yn llawn amser) am rywun ag anabledd (nad yw'n ŵr, gwraig, partner na'n blentyn dan 18 oed i chi)
- rydych yn credu eich bod yn byw ar incwm isel
- rydych yn byw ar ein pen eich hun, neu gyda phobl/plant nad ydynt yn talu'r dreth gyngor
- rydych yn fyfyriwr
- rydych yn anabl
- mae gennych nam meddyliol
- mae eich eiddo'n wag

I weld rhestr lawn o'r meini prawf cymhwysedd, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: https://gov.wales/cymorthgydachtrethgyngor

Fe fedrech chi gael hyd at 50% o ostyngiad ar eich Treth Gyngor os ydych yn ofalydd, yn dibynnu ar bwy arall sy'n byw yn eich cartref. I fod yn gymwys, rhaid i chi fodloni'r **holl** feini prawf canlynol:

- rhaid eich bod yn darparu gofal am o leiaf 35 awr yr wythnos
- rhaid eich bod yn byw yn yr un eiddo â'r sawl rydych chi'n gofalu amdano
- ni fedrwch fod yn briod neu'n bartner i'r sawl rydych chi'n gofalu amdano, neu'n rhiant os ydych yn gofalu am blentyn dan 18 oed

Rhaid bod y sawl rydych yn gofalu amdano yn derbyn un o'r canlynol:

- y gyfradd ganol neu uwch o gydran gofalu'r Lwfans Byw i'r Anabl
- y gydran bywyd beunyddiol o'r Taliad Annibyniaeth Personol ar unrhyw gyfradd
- y Lwfans Gweini ar unrhyw gyfradd
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- y gyfradd uchaf o'r Lwfans Gweini Cyson

Nid oes angen i chi fod yn hawlio'r Lwfans Gofalwr i fod yn gymwys i gael y gostyngiad hwn, ac ni fydd eich incwm na'ch cynilion yn effeithio ar eich cymhwysedd.

Os oes mwy nag un gofalydd yn yr eiddo, medrwch barhau i gael gostyngiad o hyd at 50%, cyn belled â'ch bod chi'n bodloni'r holl amodau.

Mae'n bosibl y medr rhywun sydd wedi gadael ei eiddo'n wag, ac nid yr eiddo hwnnw yw ei brif breswylfa bellach, hefyd gael eithriad i'r Dreth Gyngor. Byddai hyn yn gymwys i ofalydd sy'n byw yng nghartref y dibynnydd ac yn darparu gofal personol iddo oherwydd henaint, anabledd, salwch, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, neu anhwylder meddyliol.

Os ydych chi'n credu y medrech chi fod yn gymwys, dylech gysylltu ag adran Treth Gyngor eich awdurdod lleol.

# Lwfans Gofalwr

Mae llawer o oblygiadau dros ddod yn ofalydd i berthynas neu ffrind, gan gynnwys cwymp posibl mewn incwm. Mae rhai gofalwyr yn penderfynu gadael eu swyddi neu leihau'r oriau y maen nhw'n gweithio. Medr y system fudd-daliadau ymddangos yn gymhleth ac nid yw llawer o ofalwyr yn ymwybodol o rai o'r budd-daliadau sylfaenol y medrent fod yn gymwys i'w derbyn.

Y prif fudd-dal i ofalwyr yw'r Lwfans Gofalwr. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y budd-dal hwn, rhaid eich bod yn gofalu am rywun sy'n derbyn naill ai'r Lwfans Byw i'r Anabl (anghenion gofal personol, cyfradd ganolig neu uwch) neu Gydran Bywyd Beunyddiol y PIP (Taliad Annibyniaeth Bersonol), neu'r Lwfans Gweini, am 35 awr neu fwy yr wythnos. Os ydych yn gweithio, ni allwch ennill mwy na'r trothwy enillion am yr wythnos. Os ydych yn derbyn budd-daliadau eraill, medr ymddangos nad oes unrhyw fudd o hawlio'r Lwfans Gofalwr. Ond, gallwch fod â'r hawl i gael yr hyn a elwir yn hawl sylfaenol a fedrai roi'r hawl i chi gael budd-daliadau na fedrwch eu hawlio gyda'r budd-daliadau eraill.

Os ydych chi'n ofalydd ac yn ansicr a ydych yn derbyn yr holl fudd-daliadau y mae gennych chi'r hawl i'w derbyn, medr Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr drefnu i chi gael gwiriad budd-daliadau a fydd yn edrych ar hawliau'r sawl sy'n derbyn gofal a'ch hawliau chi er mwyn sicrhau eich bod yn cael yr incwm uchaf posibl.

Am wybodaeth gyfoes ar fudd-daliadau, ewch i :-

https://www.moneyadviceservice.org.uk/en

https://www.gov.uk/

# Help gyda'ch biliau neu ôl-ddyledion i Ddŵr Cymru

### HelpU

Wedi'i ddylunio i helpu aelwydydd ar incwm isel.

### WaterSure Cymru

Mae hwn yn helpu aelwydydd ar incwm isel â theuluoedd mawr neu aelwydydd ar incwm isel lle y mae gan aelod o'r cartref gyflwr meddygol sy'n peri iddo orfod defnyddio llawer o ddŵr.

### Mesurydd Dŵr

Mae cwsmeriaid heb fesurydd yn medru gwneud cais am fesurydd dŵr.

### Cynlluniau dyled

· Water Direct (taliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau)

· Cronfa Cymorth Cwsmeriaid (CAF)

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**0800 052 0145**

**http://www.dwrcymru.com/**